**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talybont.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?

☐ rhiant/ gofalwr neu warcheidwad ☐ darpar riant / gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr ☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned ☐ Cyngor cymuned

X Arall: nodwch os gwelwch yn dda Sefydliad - Rhanbarth Ceredigion Cymdeithas yr Iaith

2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa:

Yn hytrach na thanseilio cymunedau dylai Cyngor Ceredigion roi pob cyfle iddyn nhw ffynnu. Un ffordd o wneud hynny yw cynnal addysg Gymraeg mewn cymuned.

Wrth adolygu ysgolion yn unrhyw ardal dylai'r gymuned fod yn rhan o'r broses o'r dechrau, a dylai fod yn rhan o lunio cynigion ar gyfer y dyfodol.

Nid ydym o'r farn bod y Cyngor wedi trin y gymuned fel partner llawn wrth fynd ati i lunio cynnig i Ysgol Craig yr Wylfa. Yn hytrach na thrafod y sefyllfa yn agored ar ddechrau'r broses o ystyried sefyllfa ysgolion y sir gyda'r gymuned a chydweithio a thrafod gyda nhw ddatrysiadau posibl fyddai o fudd i'r cymunedau, mae'r cyngor wedi ymweld â llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion a mynd ati i lunio cynnig i gau a gofyn wedyn i'r gymuned am syniadau amgen.
Mae trafod cau unrhyw ysgol yn creu ansicrwydd ymhlith rhieni a staff, felly mae dod at gymuned â chynnig i gau yr ysgol a gofyn iddynt gynnig opsiwn arall yn hynod niweidiol.

3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Craig yr Wylfa, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?

X Oes ☐ Nac oes

Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):

Does dim ystyriaeth i leihau capasiti yr ysgol trwy fod ymddiriedolaeth yn prynu'r ysgol a'r

cyngor yn rhentu’r hyn o ofod sydd ei angen’ neu i’r cyngor glustnodi rhan o’r ysgol at ddefnydd cymunedol ar gyfer gweithgareddau, fel llefydd gweithio i’r cyngor neu i’r cyhoedd ac ati.

Nid oes ystyriaeth lawn chwaith i gryfhau na ffurfioli’r cydweithio rhwng ysgolion Craig yr Wylfa a Thal-y-bont. Mae’r ddwy mewn “ffederasiwn anffurfiol” ar hyn o bryd ac yn cael ei drin fel rhywbeth gweinyddol yn hytrach na fel cyfle i ysgolion a chymunedau gydweithio a ffynnu.

Wrth ystyried ffedereiddio does dim ystyriaeth i allu’r ysgolion mewn ffederasiwn i ddefnyddio adnoddau ei gilydd i arbed arian ac i fanteisio ar gyfleusterau ei gilydd trwy symud rhwng yr ysgolion a galluogi plant oedran amrywiol i gael eu dysgu gyda'i gilydd fel cryfder i greu ffederasiwn.
Ni ystyrir chwaith y byddai ffederasiwn yn cryfhau cydweithio rhwng cymunedau ar raddfa fwy eang.

Er mwyn i ffederasiwn greu arbedion ariannol sylweddol mae angen ffederasiwn rhwng mwy na dwy ysgol. Does dim ystyriaeth i gynnwys ysgolion Rhydypennau na Chomins Coch mewn ffederasiwn hefyd. Nid yn unig y byddai hynny yn gallu creu arbedion ariannol ond byddai’n cryfhau’r cymunedau sydd yn bwydo’r ysgolion hynny trwy annog cydweithio rhyngon nhw. Gyda chefnogaeth byddai modd i gymuned y Borth ddod yn fwy Cymraeg, o gydweithio gyda chymunedau Cymraeg eraill.

Byddai cynnwys Ysgol Penweddig mewn ffederasiwn yn cryfhau dilyniant i addysg Gymraeg hefyd. O greu cysylltiad rhwng Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Penweddig byddai disgyblion yn fwy tebygol o fynd ymlaen i Ysgol Penweddig, a pharhau mewn addysg Gymraeg.

Ni ddylai cynnal ymgynghoriad ar wahân nac anawsterau gweinyddol gyfri yn erbyn unrhyw syniad na chael ei ystyried yn wendid chwaith.

4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa ar unrhyw un o’r canlynol:

☐ y Gymuned

☐ Pobl â nodweddion gwarchodedig *h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol*

☐ Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ____________________

Rhowch fanylion pellach isod:

Byddai cau Ysgol Craig yr Wylfa yn effeithio ar y gymuned a’r ardal ehangach. Mae’r ysgol yn ganolbwynt i’r Gymraeg, ac unig gyswllt rhai â’r iaith, mewn ardal sydd â chymaint o ail dai a thai gwyliau ynddi. Yn ogystal, mae poblogaeth y Borth yn gymharol hen, heb ysgol i ddenu a chadw teuluoedd, mae'r boblogaeth yn debygol o heneiddio.

Mae Borth ymysg yr ardaloedd â’r nifer uchaf o ail dai a thai gwyliau yng Ngheredigion, byddai cau yr ysgol yn atal unrhyw gyfle iddi ddod yn gymuned Gymraeg, gan mai’r ysgol yw canolbwynt y Gymraeg a phrif gyswllt nifer o drigolion y gymuned â’r Gymraeg. Byddai colli’r ysgol yn golygu colli’r cyswllt hynny.

O golli'r unig gyswllt hollol Gymraeg o'r gymuned bydd pentre'r Borth yn colli unrhyw gyfle i ddod yn gymuned Gymraeg yn y dyfodol. Rhwng hynny a cholli poblogaeth ifanc botensial gallai'r pentref droi'n ddim mwy na phentref gwyliau neu i ymddeol iddo.

Mae plant o gartrefi di-Gymraeg yn mynychu Ysgol Craig yr Wylfa gan mai honno yw'r ysgol leol, gan ei bod yn ysgol Gymraeg mae'r plant hynny wedi derbyn addysg Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cynnig bod plant yn mynd i Ysgol Tal-y-bont, ac mae cysylltiad rhwng y ddwy ysgol eisoes, gan fod y ddwy ysgol yn rhannu prifathro. Ond o orfod mynd i ysgol arall, does dim sicrwydd y bydd plant yr ysgol yn mynd i Ysgol Tal-y-bont. Mae'n bosibl y byddai rhai rhieni yn dewis mynd â'u plant i ysgol Aberystwyth er cyfleustra, os ydyn nhw'n gweithio yn y dref neu os ydyn nhw'n ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, fel mae traean o rieni, er enghraifft.

Does dim bysiau uniongyrchol rhwng y Borth a Thalybont: rhaid mynd trwy Aberystwyth yn gyntaf. Byddai casglu plant y tu allan i oriau ysgol ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol neu eu gollwng yn gynnar ar gyfer clwb brecwast yn Nhalybont yn anodd iawn i rieni heb fynediad at gar. Byddai dipyn yn haws i blant fynd i ysgol yn Aberystwyth.

Mae tair ysgol gynradd yn Aberystwyth, dim ond un ohonyn nhw yn un cyfrwng Cymraeg, er bod Ysgol Plascrug yn symud at fod yn ysgol Cymraeg hyd at Gyfnod Allweddol 1. Does dim sicrwydd y bydd yr holl ddisgyblion yng Nghraig yr Wylfa yn parhau i dderbyn addysg Gymraeg felly.

Dydyn ni ddim yn cytuno na fyddai plant a theuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol o gau Ysgol Craig yr Wylfa a'u symud i Ysgol Tal-y-bont. Gan nad oes gan draean o deuluoedd yr ysgol fynediad at gar byddai'n anodd i blant fanteisio ar glwb brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol o orfod dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn Ysgol Tal-y-bont, ac yn digwydd trwy'r Gymraeg, sy'n bwysig er mwyn pwysleisio nad iaith addysg yn unig yw'r Gymraeg. Er hynny, gan nad oes gan draean o deuluoedd Ysgol Craig yr Wylfa fynediad at gar byddai'n anodd i nifer o ddisgyblion presennol Craig yr Wylfa yn methu bod yn rhan o'r gweithgareddau yma.

5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
c. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mae'n amlwg fod yr ysgol yn gyswllt â'r Gymraeg i'r gymuned trwy ei weithgareddau. Byddai cau yr ysgol yn tynnu gweithgareddau Cymraeg y plant o'r Eglwys, trwy gynnal gweithgareddau yn y neuadd gymunedol mae'r ysgol yn rhoi'r Gymraeg yng nghanol y gymuned.

Er bod awgrym y byddai Cered yn cyd-weithio â chymuned y Borth i drefnu

gweithgareddau cymdeithasol i hybu defnydd y Gymraeg, heb ffocws penodol a chefnogaeth yr ysgol a theuluoedd sydd â'u plant yn yr ysgol bydd yn anodd cynnal gweithgareddau.
Rydyn ni wedi nodi ein pryderon y gallai'r Borth droi yn gymuned i ymddeol iddi neu yn bentref gwyliau, heb weithgareddau Cymraeg, byddai llai o ymdeimlad o gymuned a byddai'n arwain at ddirywiad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Dydyn ni ddim yn cytuno y byddai mwy o gyfleoedd i blant cyn-oed ysgol gael mynediad at y Gymraeg trwy gau Ysgol Craig yr Wylfa a symud y plant i Ysgol Tal-y-bont. Er bod Cylch Meithrin yn gysylltiedig ag Ysgol Tal-y-bont, gan nad oes gan draean o deuluoedd Ysgol Craig yr Wylfa fynediad at gar, a bod rhieni yn tueddu i fanteisio ar y ddarpariaeth agosaf i'w cartref er hwylustod, does dim sicrwydd y byddai plant yn mynd i Gylch Meithrin Ysgol Tal-y-bont.

Does dim ystyriaeth yn yr asesiad effaith iaith i gynnwys rhieni di-Gymraeg ar Fwrdd Llywodraethwyr neu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont. Byddai cyfarfodydd yn debygol o ddigwydd trwy'r Gymraeg yn Ysgol Tal-y-Bont, ond mae nifer o blant Ysgol Craig yr Wylfa yn dod o deuluoedd di-Gymraeg. Byddai angen i gyfarfodydd o’r math ddigwydd trwy'r Saesneg er mwyn cynnwys rhieni plant fyddai wedi eu symud o Ysgol Craig yr Wylfa - gallai hynny newid ethos y digwyddiadau. Fel arall, byddai'n anodd i rieni Ysgol Craig yr Wylfa integreiddio i gymuned yr ysgol.

Gan mai'r ysgol yw prif gyswllt nifer o rieni a theuluoedd â'r Gymraeg, o beidio cael ymdeimlad o berthyn i'r ysgol newydd gallai teuluoedd golli'r cysylltiad â'r Gymraeg.

Dydyn ni ddim yn cytuno na fyddai effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg at y dyfodol ac y byddai'r Gymraeg mor weledol ag y mae hi nawr petai Ysgol Craig yr Wylfa yn cael ei chau. Fel i ni nodi eisoes, does dim sicrwydd y bydd plant yn mynd i Ysgol Tal-y-Bont neu ysgol Gymraeg arall.

Mae awgrym y gellid annog busnesau a mudiadau i wneud defnydd o'r Gymraeg trwy gynlluniau penodol, ond heb reswm penodol i wneud hynny byddai'n anodd annog busnesau i wneud. Mae'n bosibl y byddai llai o ddefnydd o fusnesau lleol, yn enwedig gan blant yr ysgol na fyddai'n cerdded i'r ysgol a heibio neu gerllaw busnesau'r Borth.

Ar bapur, dydy trosglwyddo disgyblion o un ysgol Gymraeg i un arall ddim yn effeithio ar y Gymraeg, ond dydy ysgolion na chymunedau ddim yn bodoli ar bapur yn unig. Dyna pam y credwn y dylai’r cyngor edrych ar effaith cau ysgol ar gymunedau a’r Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd wedi colli eu hysgol yn y gorffennol.

Mae’r degau o ysgolion wedi eu cau yn ystod y ddwy ddegawd ddiwetha ond ni fu asesiad o effaith ar unrhyw un o’r cymunedau hynny. Gofynnwn i chi gynnal asesiad o effaith cau ysgolion cynradd, ac ystyried, ymysg pethau eraill:

- A barhaodd plant mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i’w hysgol newydd
- I ba ysgol uwchradd oedd disgyblion yn tueddu i fynd ac i ba ysgol uwchradd aeth y

disgyblion o'u hysgol newydd
- I ba ysgol aeth y plant hynny - ai i'r ysgol yr oedd y cyngor yn bwriadu iddyn fynd, neu i ysgol arall, a pham i ddisgyblion aeth i ysgol arall ddewis gwneud hynny?
- Ydy'r gymuned a gollodd ei hysgol yn hyfyw o hyd - oes yr un nifer o grwpiau cymunedol yn dal i fodoli ac yn weithgar o hyd ac oes digwyddiadau cymunedol yn parhau os oedden nhw'n cael eu cynnal?
- A fu dirywiad i'r Gymraeg yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad dilynol, ac os felly, faint?
- Ydy demograffeg y gymuned wedi newid, ydy teuluoedd yn dal i fyw yn a symud i'r ardal
- Effaith cau ysgol ar les a datblygiad plant
- Beth sydd wedi digwydd i adeilad a safle'r ysgol

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad

Ymgynghori? X Ie☐ Na

Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:

______________________________________________________________

Diolch am gwblhau'r ffurflen ymateb

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad canlynol, i gyrraedd erbyn

**3 Rhagfyr 2024** fan bellaf neu eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost isod.


Prif Swyddog Addysg,

Gwasanaeth

Ysgolion, Ail Lawr,

Canolfan Rheidol,

Rhodfa Padarn,

Llanbadarn Fawr,

Aberystwyth,

SY23 3UE

E-bost: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk